Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanarth ar ddydd Gwener Hydref 9fed - y disgyblion lleol yn dangos eu donie yn y pnawn, gyda'r adran agored yn yr hwyr.

Gyda llond neuadd bentre yn cefnogi plant ysgol Llanarth, y beirniaid oedd Einir Ryder-Jones (Cerdd), Naomi Nicholas-Jones (Llefaru) a Sian Heulwen (arlunio a gwaith celf). Bu Ceirios Gruffydd yn cyfeilio i'r plant ysgol. Cafwyd pnawn cofiadwy, gyda'r beirniaid yn cael gwres eu trad, wrth penderfynu ar yr enillwyr allan o'r nifer o blant fu'n cystadlu! Roedd y seremoni cadeirio yn werth ei gweld gyda disgyblion hŷn yr ysgol yn cyfrannu'n helaeth i'r digwyddiad, drwy gyrchu, cyfarch a chyd ganu cân y cadeirio. Enillydd cadair Ysgol Llanarth oedd Elsi Jones a Lydia Lloyd enillodd y tlws am yr unigolyn gyda'r nifer mwya o bwyntiau yn y steddfod. Diolch i staff ysgol Llanarth am baratoi'r holl blant mor dda.

Yna am 5.30, tro'r cystadleuwyr yn yr adran agored oedd hi. Eleni eto, roeddem wedi derbyn gwobrau ychwanegol i'r cystadleuwyr o dan 12 oed. Rydym yn ddiolchgar tu hwnt i Gill Hearne (gynt o Fydroilyn a Llanarth) am roi rhodd i'r steddfod o rai o'r cwpanau a enillodd hi wrth gystadlu sawl blwyddyn yn ôl. Yn beirniadu'r adran agored oedd Anwen Evans-Driver, Hendy Gwyn ar Dâf (cerdd) a Daniel O'Callaghan, Pwll Trap (llefaru). Tudur Jones o Dywyn oedd y cyfeilydd. Llywydd yr Eisteddfod oedd Caradog Evans, Beechwood, Llanarth. Nid oedd yn medru bod yn bresennol ar y noson ond darllenodd Alan Thomas rhai geiriau ganddo a diolchwyd iddo am ei rodd hael i goffrau'r steddfod.

Cafwyd seremoni gadeirio gofiadwy wrth i'r beirniad Endaf Griffiths lywio'r seremoni a thraddodi'r feirniadaeth. Allan o 21 ymgais, a'r safon yn uchel iawn yn ôl y beirniad, enillydd y gadair oedd Aeron Dafydd o Groeslan. Diolch i Aled Dafis am lunio'r gadair eleni eto, ac i Fflur McConnell am ganu cân y cadeirio, a Rhys ac Ioan am gyrchu a chyfarch yr enillydd.

Dyma ganlyniadau'r adran agored - llwyfan
Unawd o dan 6 - 1. Heti Beaumont, Cwmman 2. Moc Davies, Llanddewi Brefi =3. Steffan James, Llwyncelyn a Leisa Jones, Llanarth.
Llefaru o dan 6 - 1. Moc Davies, Llanddewi Brefi 2. Steffan James, Llwyncelyn 3. Jac Williams, Abermeurig.
Unawd 6-8 - 1. Leisa Hatcher, Gorsgoch 2. Alaw Richards, Llwyncelyn 3. Betsi Beaumont, Cwmman.
Llefaru 6-8 - 1. Alaw Richards, Llwyncelyn 2. Leisa Hatcher, Gorsgoch =3. Ester Jones, Llanarth ac Ifan Morgan Jones, Llanarth.
Unawd 8-10 - 1. Ifan Wyn Morris, Llanfihangel ar Arth 2. Trefor Hatcher Davies, Llanddewi Brefi 3. Heti Evans, Pontrhydygroes.
Llefaru 8-10 - 1. Ifan Wyn Morris, Llanfihangel ar Arth 2. Tryfan Samuel Phillips, Talsarn =3. Trefor Hatcher Davies, Llanddewi Brefi ac Ilan Rhun Phillips, Caerfyrddin.
Canu'r piano o dan 12 - 1. ac yn ennill cwpan her Dafydd a John Lloyd, Tegfan - Molly Rose, Llanarth 2. Neli Evans, Talgarreg 3. Non Thomas, Talgarreg.
Canu emyn o dan 12 - 1. Ifan Wyn Morris, Llanfihangel ar Arth 2. Betsi Beaumont, Cwmman 3. Gwenno Dafydd, Aberaeron.
Alaw werin o dan 12 - 1. Trefor Hatcher Davies, Llanddewi Brefi 2. Ifan Wyn Morris, Llanfihangel ar Arth =3. Hanna Sisto, Gorsgoch a Betsi Beaumont, Cwmman.
Cerdd dant o dan 12 - 1. Neli Evans, Talgarreg 2. Ifan Wyn Morris, Llanfihangel ar Arth =3. Alaw Richards, Llwyncelyn a Trefor Hatcher Davies, Llanddewi Brefi.
Llefaru 10-12 - 1. Neli Evans, Talgarreg 2. Lydia Rees, Cross Inn =3. Non Thomas, Talgarreg a Hanna Sisto, Gorsgoch.
Unawd 10-12 - 1. Neli Evans, Talgarreg 2. Non Thomas, Talgarreg 3. Hanna Sisto, Gorsgoch.
Cwpan her Mr a Mrs Geraint Hughes a'r teulu i'r llefarydd mwyaf addawol o dan 12 - Tryfan Samuel Phillips, Talsarn.

Cwpan her er cof am Mr a Mrs Wil Evans, Brynawen i'r unawdydd mwyaf addawol o dan 12 - Neli Evans, Talgarreg.
Darllen o nofel dan 16 - 1. Celyn Davies, Llandyfriog 2. Gwenno Jones, Llanarth 3. Gruff Davies, Llandyfriog.
Unawd 12-18 1. Brychan Williams, Llambed 2. Alis James, Llwyncelyn 3. Gruff Davies, Llandyfriog.
Llefaru neu fonolog 12-18 1. Gruff Davies, Llandyfriog 2. Celyn Davies, Llandyfriog.
Cerdd dant 12-18 1. Gruff Davies, Llandyfriog.
Unawd o Sioe Gerdd 12-18 - 1. Brychan Williams, Llambed 2. Gruff Davies, Llandyfriog.
Canu emyn 12-18 1. Brychan Williams, Llambed 2. Gruff Davies, Llandyfriog.
Alaw werin 12-18 1. Brychan Williams, Llambed.
Offeryn cerdd dan 18 - 1. Gruff Davies, Llandyfriog 2. Gwenno Jones, Llanarth.
Cwpan her er cof am James a Megan Rees, Pencae i'r perfformiad mwyaf cofiadwy yn yr adran hŷn - Gruff Davies, Llandyfriog.

Dyma ganlyniadau'r adran lenyddiaeth -
Gwobr llenyddiaeth yr ifanc dan 25 ac yn ennill cadair yr eisteddfod - Aeron Dafydd, Croeslan.
Cerdd ddigri - 1. Dr Carwyn Tywyn, Porth Tywyn 2. Gaenor Mai Jones, Pontypridd 3. Ewan Smith, Bae Colwyn.
Limrig - 1. Gwenno Evans, Post Bach 2 a 3. Susan Rees, Lledrod.
Brawddeg - 1 a 2. Ian Evans, Post Bach 3. Susan Rees, Lledrod

Diolch i bawb a wnaeth y steddfod yn lwyddiant eleni eto, gyda chystadleuwyr niferus a chynulleidfa deilwng yn cefnogi. Welwn ni chi blwyddyn nesa gobeithio!